# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Cyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Grŵp Cynhwysiant |
| **SWYDD:** | Arweinydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu a CMMI |
| **GRADD Y SWYDD:** | Soulbury EIP SCP 12 – 15 (ynghyd â 3 phwynt SPA) |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Grŵp Cynhwysiant |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Mae'r swydd hon yn cyfrannu at brif nod y Gyfarwyddiaeth, sef helpu'r holl blant a phobl ifanc i:

- ffynnu a gwneud y defnydd gorau o'u talentau;
- byw bywydau iach a diogel;
- bod yn unigolion hyderus a gofalgar;
- Gwybod a derbyn eu hawliau.

Prif ddiben y swydd hon yw cyfrannu at gynhwysiant addysgol plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn y blynyddoedd cynnar ac ar draws y cyfnodau. Galluogi parhad dysgu drwy ddefnyddio a chyflawni rhaglenni gwaith gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau arbenigol iawn i reoli'r heriau penodol sy'n codi o anghenion dysgu ychwanegol disgyblion.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cefnogi gweledigaeth, ethos a pholisïau Grŵp Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol a chynorthwyo'r Rheolwr Grŵp Cynhwysiant i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth ADY ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Cymryd rôl strategol yn narpariaeth Blynyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Rhoi trosolwg strategol a chymryd rhan uniongyrchol wrth ddatblygu polisi'r awdurdod lleol ar ddarpariaeth ADY ar gyfer plant nad ydynt yn mynd i leoliad a gynhelir neu sydd o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt eto mewn ysgol a gynhelir.

- Hyrwyddo gwybodaeth, dealltwriaeth a gweithredu Deddf ALNET 2018 a'r Cod ADY sy'n ymwneud â'r Blynyddoedd Cynnar.

- Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfarfodydd a chynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â dysgwyr ag ADY yn y sector Blynyddoedd Cynnar.

- Sicrhau bod systemau yn eu lle i roi arweiniad a chyngor yn uniongyrchol i ddarparwyr ar sut y gallant helpu'r awdurdod lleol wrth weithredu ei swyddogaethau, gan gynnwys mewn perthynas â chyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yng nghynllun datblygu unigol plentyn. Cefnogi'r broses bontio i ddysgwyr yn y sector Blynyddoedd Cynnar i gam nesaf eu haddysg.

- Sicrhau bod systemau yn eu lle i roi arweiniad, cyngor, cymorth ac arbenigedd yn uniongyrchol i ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar i'w helpu i nodi ADY posibl a chyflwyno strategaethau ymyrryd yn gynnar i atal ADY rhag datblygu neu gynyddu. Sicrhau bod systemau yn eu lle fel bod Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn cael eu paratoi, eu cynnal a'u hadolygu, os nodir anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer plant nad ydynt mewn lleoliadau a gynhelir.

- Sicrhau bod grŵp o weithwyr proffesiynol yn cael ei sefydlu yn yr awdurdod lleol sy'n darparu ymgynghori, cyngor, datblygu proffesiynol, yn hwyluso rhannu arfer gorau a chymorth i weithwyr proffesiynol a theuluoedd y Blynyddoedd Cynnar.

- Sicrhau bod arweiniad, cyngor a chymorth yn cael eu darparu i'r sector Blynyddoedd Cynnar i blant ag ADY i'w cynorthwyo wrth sicrhau bod plant yn cael darpariaeth o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Hyrwyddo'r broses o gynnwys plant yn y sector Blynyddoedd Cynnar a rhoi cyngor ar hawl a mynediad i'r cwricwlwm.

- Sicrhau bod plant anghenion plant yn y Blynyddoedd Cynnar sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi'n briodol a'u diwallu, bod eu hannibyniaeth yn cael ei hyrwyddo a'u bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial llawn.

- Datblygu a goruchwylio'r gwaith o ddarparu rhaglen datblygu proffesiynol sy'n ystyried Deddf ALNET 2018 a'r cod ADY a sut y maent yn berthnasol i blant yn y Blynyddoedd Cynnar ar y cyd ag iechyd, addysg, y trydydd sector a gofal cymdeithasol.

- Gweithio gyda phartneriaid Consortiwm Canolbarth y De (CCD) ar ddatblygu dulliau cydweithredol ar draws rhanbarth Canolbarth y De.

- Bod yn rheolwr llinell ar yr Athrawon Arbenigol Gwybyddiaeth a Dysgu a'r Athro Arbenigol a'r Swyddog Uwch Gymorth Arbennig Nam Meddygol ac Echddygol Cymhleth (CMMI).
- Gweithio gyda thîm staff arbenigol gwybyddiaeth a dysgu, y Rheolwr Grŵp Cynhwysiant ac uwch reolwyr ysgolion i sicrhau diagnosis cynnar o anghenion a phennu targedau realistig a heriol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yn briodol mewn modd amserol.
- Goruchwylio a monitro'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion yn y dosbarthiadau arsylwi a'r canolfannau adnoddau dysgu ar gyfer anawsterau dysgu cymedrol a chysylltu â Phartneriaid Gwella lle bo angen.
- Cyfrannu at gynllunio busnes a hunanwerthuso'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd. Monitro, dadansoddi ac adrodd yn rheolaidd ar ddata perfformiad.
- Cyfrannu at y strategaeth datblygu proffesiynol i ysgolion a thimau arbenigol, gan sicrhau effeithiolrwydd personol a phroffesiynol staff yn yr awdurdod lleol ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol drwy waith meithrin gallu, cyngor, arweiniad, strategaethau gwahaniaethu a defnyddio adnoddau.
- Trafod atgyfeiriadau ar gyfer darpariaeth allgymorth a lleoliadau arbenigol, ar y cyd â'r Rheolwr Grŵp Cynhwysiant, y tîm gwybyddiaeth a dysgu, yr athro arbenigol CMMI a phenaethiaid, i ailalinio'r ddarpariaeth gwasanaeth yn briodol a sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.
- Cysylltu'n briodol â gweithwyr proffesiynol perthnasol ynghylch achosion difrifol, ar y cyd ag asiantaethau allanol a theuluoedd i sicrhau eu bod yn cael yr hawl i ddarpariaeth effeithiol a phriodol.
- Sicrhau gweithio mewn partneriaeth gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd drwy rwydweithiau cymorth, gan gynnwys mecanweithiau ar gyfer ymgynghori a gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodi troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Arweinydd Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu a CMMI

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Athro/athrawes gymwysedig sy'n gallu dangos lefel dda o gymhwysedd a phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| | • Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. | Ydy | |
| | • Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus priodol | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu'n fedrus yn Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. | | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o arweinyddiaeth gan gynnwys cyfrifoldebau strategol a rheoli staff. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol. |
| | • Profiad o reoli newid. | | |
| | • Profiad o gynllunio datblygu a hunanwerthuso. | Ydy | |
| | • Profiad o weithio gyda phlant neu bobl ifanc ag ADY yn y Blynyddoedd Cynnar. | Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Profiad o ysgrifennu adroddiadau proffesiynol a chynnal asesiad o blant a phobl ifanc ag ADY. | Ydy | |
| | • Profiad o gyflwyno hyfforddiant a datblygu proffesiynol rhagorol i staff. | Ydy | |
| | • Profiad o weithio mewn cyd-destun amlbroffesiynol. | Ydy | |
| | • Gwybodaeth ymarferol am gyfrifoldebau statudol yr awdurdod lleol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc ag ADY. | Ydy | |
| | • Gwybodaeth am ddarpariaeth ADY briodol. | | |
| | • Gwybodaeth gadarn am Ddeddf ALNET 2018, diwygiadau a'r Cod. | Ydy | |
| | • Gwybodaeth am leoliadau Blynyddoedd Cynnar nas cynhelir. | Ydy | |
| | • Dealltwriaeth strategol o faterion sy'n effeithio ar bolisi a darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar. | Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Sgiliau cyfathrebu da, yn ysgrifenedig ac ar lafar. | Ydy | Ffurflen gais, cyfweliad a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Sgiliau rhyngbersonol da gan ddangos gallu i gydweithio ag eraill. | Ydy | |
| | • Dull rhagweithiol a hyblyg gyda'r gallu i ddatrys problemau a chyflawni amcanion. | Ydy | |
| | • Gallu bod yn flaengar wrth ystyried opsiynau cyflawni a dewisiadau o ran rhaglenni. | Ydy | |
| | • Gallu dangos lefel uchel o gymhelliant a menter bersonol, gydag ymdeimlad cryf o ymroddiad i'r Awdurdod a chefnogaeth i amcanion y Cyngor, yn ogystal â'r gallu i gymell, rheoli a chynorthwyo timau ac unigolion. | Ydy | |
| | • Meddu ar sgiliau dadansoddol a rhifedd da, gan werthfawrogi manteision T.G. a pharodrwydd i ddatblygu sgiliau cysylltiedig. | | |
| | • Gallu dangos sgiliau trefnu a chyflwyno gwych. | | |
| | • Gallu dangos sensitifrwydd o ran ymwybyddiaeth o anghenion penaethiaid, athrawon a staff eraill ysgolion. | Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu gweithredu fel ffynhonnell o arbenigedd i ddarparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir mewn materion sy'n ymwneud ag ADY.<br><br>• Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>• Trwydded yrru lawn, lân ac yn gallu defnyddio cerbyd personol.<br><br>• Mae'r gallu i gyfarch cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r gofynion ar gyfer y swydd hon. | <br><br><br><br><br><br>Ydy<br><br><br>Ydy | |